Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

# DWEUD EICH DWEUD!

mewn perthynas ag

# Adolygiad Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

Mae'r Ymgynghoriad yn **DECHRAU** ar:

## 1 HYDREF 2024


ac yn **DOD I BEN am 5pm** ar:

## 30 TACHWEDD 2024

I gael rhagor o wybodaeth ac i lenwi'r holiadur, sganiwch y cod QR neu ewch i:

**www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori**

**lle mae modd i chi ddod o hyd i fanylion y cynigion**



Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gopi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch â ni:

☎ **01443 425014** ✉ **gofalpreswyl@rctcbc.gov.uk**

**RHADBOST RUGK-EZZL-ELBH**
CBSRhCT, Ymchwil ac Ymgynghori
2 Llys Cadwyn PONTYPRIDD CF37 4TH

**AR GAEL MEWN IEITHOEDD NEU FFORMATAU ERAILL AR GAIS**
**Fydd gohebu yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.**
Os oes angen ein gwasanaeth eirioli ni arnoch chi, rhowch wybod i ni.

RHONDDA CYNON TAF

# CYFLWYNIAD

**Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn adolygu ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion ei holl drigolion, wrth fynd i'r afael â'r heriau gweithredol ac ariannol y mae'n eu hwynebu, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau a llai o gyllid.**

Ym mis Medi 2024, darparodd y Cyngor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer llety â gofal gan amlinellu cynigion i gefnogi newidiadau posibl yn anghenion y boblogaeth yn y dyfodol a datblygu llety mwy cost-effeithiol gyda datrysiadau gofal.

Cafodd y cynigion eu hystyried gan Gabinet y Cyngor ac roedd cytundeb y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau a argymhellir ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor rhwng **1 Hydref 2024** a **30 Tachwedd 2024.**

Mae manylion dewisiadau sydd wedi'u hargymell er mwyn eu hystyried gan y Cabinet ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor wedi'u nodi yn y llyfryn yma.

Mae'r Cyngor yn eich gwahodd i gyflwyno'ch barn a gwneud unrhyw sylwadau sydd gennych chi mewn perthynas â'r opsiynau a argymhellir, yn ogystal â nodi unrhyw opsiynau neu newidiadau eraill yr hoffech iddyn nhw gael eu hystyried.

**Manteisiwch ar y cyfle yma i ddweud eich dweud!**

**I lenwi'r arolwg ar-lein, sganiwch y cod QR**

neu ewch i **www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori**

# CEFNDIR

**Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o wasanaethau o ansawdd ar gael yn Rhondda Cynon Taf er mwyn cefnogi ystod anghenion a gofynion y boblogaeth a bod y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn adolygu ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.**

Mae moderneiddio a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac mae wedi trawsnewid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, i ddarparu rhagor o opsiynau i bobl fod yn annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.

Ym mis Chwefror 2023, cytunodd y Cabinet ar ddarpariaeth llety â gofal i bobl hŷn yn y dyfodol. Ar gyfer cartrefi gofal preswyl mae'r tabl yn dangos crynodeb o benderfyniadau'r Cabinet ym mis Chwefror 2023 a, lle bo'n berthnasol, yn cynnwys diweddariad byr ar sefyllfa bresennol pob cartref gofal.

| Cartref Gofal | Penderfyniad y Cabinet, Chwefror 2023 | Newyddion Diweddaraf |
|---|---|---|
| **Cwrt Clydach** | Cadw | |
| **Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House)** | Adeiladu llety gofal newydd yng Nglynrhedynog: 25 o welyau gofal ychwanegol a 15 o welyau gofal dementia preswyl.<br>Cau Tŷ Glynrhedynog unwaith y bydd y llety newydd ar gael. | Mae partner tai y Cyngor o'r farn nad yw'r cynnig gofal ychwanegol yn rhan o ddatblygiad llety gofal ehangach Cwm Rhondda Fach yn ddichonol nac yn gynaliadwy. Felly, dyma benderfynu adeiladu cartref gofal dementia preswyl yn unig ar hen safle ffatri Chubb. |
| **Tŷ Pentre** | Cadw | |
| **Ystrad Fechan** | Adeiladu llety gofal newydd yn Nhreorci. 40 o welyau gofal ychwanegol ac 20 o welyau gofal dementia preswyl.<br>Cau'r cartref yn barhaol. | Mae cartref Ystrad Fechan wedi cau. Dim cynnydd o ran y safle datblygu arfaethedig ar gyfer llety gofal newydd – aros am benderfyniad gan y gyfadran Iechyd ynghylch argaeledd y safle. |
| **Tegfan** | Cadw | Tegfan yn newid i gartref preswyl dementia yn unig. |
| **Troed-y-rhiw** | Adeiladu llety gofal newydd yn Aberpennar. 25 o welyau gofal ychwanegol a 15 o welyau gofal dementia preswyl. Cartref Troed-y-rhiw i gau pan fydd y llety newydd yn agor. | Dyluniad cynllun wedi'i gytuno ar gyfer safle arfaethedig ar dir Heol y Darren yn Aberpennar. Cais cynllunio llawn ar y gweill. |
| **Cae Glas** | Cadw | |
| **Garth Olwg** | Ailddatblygu ar gyfer llety gofal anableddau dysgu.<br>Cau Garth Olwg. | Mae Garth Olwg wedi cau, ac mae bwriad ei ddymchwel yn Haf 2024. Cynnig ar y gweill – ceisio Datganiadau o Ddiddordeb gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn symud ymlaen. |
| **Parc Newydd** | Cadw | Mae gwaith adnewyddu uned 10 gwely sy'n addas ar gyfer gofal dementia preswyl wedi'i gwblhau. |

# Y SEFYLLFA BRESENNOL

**Mae'r Cyngor yn gweithredu 7 cartref gofal preswyl ar hyn o bryd sy'n cynnig 237 o welyau preswyl, o'i gymharu â 9 cartref gofal a 267 o welyau adeg cyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror 2023.**

O 9 Awst 2024 ymlaen, roedd cartrefi gofal preswyl y Cyngor yn cynnal 156 o welyau wedi'u meddiannu yn barhaol.

Mae hyn yn cynrychioli meddiannaeth barhaol gyfredol o 65.8%, ac er bod derbyniadau i rai cartrefi gofal wedi'u heffeithio, oherwydd materion staffio a llety er enghraifft, nodir bod dros draean o'r gwelyau cofrestredig yn wag. Mae gostyngiad yn parhau yn y galw am leoliadau mewn cartrefi gofal preswyl a dyma'r prif reswm dros y defnydd isel parhaus a'r gwarged o welyau preswyl.

| Cartref Gofal | Nifer y Gwelyau | Gwelyau wedi'u meddiannu yn barhaol | % Meddiannaeth Barhaol |
|---|---|---|---|
| Cwrt Clydach | 35 | 28 | 80% |
| Tŷ Glynrhedynog | 26 | 16 | 61.5% |
| Tŷ Pentre | 29 | 18 | 62% |
| Tegfan | 46 | 25 | 54% |
| Troed-y-rhiw | 26 | 21 | 80.7% |
| Cae Glas | 39 | 28 | 71% |
| Parc Newydd | 36 | 20 | 55.5% |
| **CYFANSWM** | **237** | **156** | **65.8%** |

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith dadansoddi pellach yn dangos bod nifer y preswylwyr mewn cartrefi gofal ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol wedi gostwng yn Rhondda Cynon Taf er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth hŷn – rhwng 2016/17 a 2023/24, mae lleoliadau cartrefi gofal wedi gostwng 8% yn gyffredinol. Dros yr un cyfnod, bu newid hefyd yng nghategori gofal preswylwyr, yn enwedig rhwng preswyl cyffredinol a dementia preswyl fel y dangosir isod.

| Diwedd Blwyddyn | Preswyl (Cyffredinol) | Preswyl (Dementia) | Nyrsio (Cyffredinol) | Nyrsio (Dementia) |
|---|---|---|---|---|
| 2016/17 | 33% | 29% | 31% | 6% |
| 2023/24 | 24% | 35% | 33% | 8% |

Mae disgwyl i lefelau is o alw am ofal preswyl cyffredinol barhau ochr yn ochr â galw uwch am gategorïau anghenion gofal eraill, dementia yn benodol.

Mae'r galw am wasanaethau gofal cartref a thai gofal ychwanegol i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac sy'n 65 oed a hŷn wedi bod yn cynyddu.

# LLETYAU GOFAL YCHWANEGOL

**Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu lletyau modern sy'n addas at ddiben cefnogi pobl hŷn ag anghenion sydd wedi'u hasesu. Cyhoeddodd y Cyngor raglen uchelgeisiol ym mis Medi 2017, yn amlinellu ei gynnig i ddarparu 300 o fflatiau gofal ychwanegol yn rhan o'i Strategaeth i foderneiddio llety ag opsiynau gofal i bobl hŷn.**

Mae diweddariad ar y rhaglen wedi'i nodi isod.

| Datblygiadau Tai Gofal Ychwanegol | Nifer y fflatiau | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Dan-y-Mynydd** | 60 | Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Dyddiad agor arfaethedig: tua diwedd 2025. |
| **Maes-y-ffynnon** | 40 | Cynllun ar agor. |
| **Aberpennar** | 25 | Yn rhan o ddatblygiad llety gofal arfaethedig y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023 - cytunwyd ar ddyluniad y cynllun ar gyfer safle arfaethedig ar dir oddi ar Heol y Darren yn Aberpennar. Dyddiad agor arfaethedig: Gaeaf 2027. |
| **Tŷ Heulog** | 40 | Cynllun ar agor. |
| **Cwrt Yr Orsaf** | 60 | Cynllun ar agor. |
| **Treorci** | 40 | Yn rhan o ddatblygiad llety gofal arfaethedig y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023 - nid yw safle'r datblygiad arfaethedig wedi mynd rhagddo yn ôl y disgwyl - parhau i aros am benderfyniad gan y gyfadran Iechyd ynghylch argaeledd y safle. |
| **Cwm Rhondda Fach** | 25 | Yn rhan o ddatblygiad y llety gofal arfaethedig y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023 – fodd bynnag, mae partner tai y Cyngor o'r farn nad yw'r cynnig gofal ychwanegol yn rhan o ddatblygiad llety gofal ehangach Cwm Rhondda Fach yn ddichonol nac yn gynaliadwy. |
| **CYFANSWM** | **290** | |

Mae gofal ychwanegol wedi bod yn ddatblygiad llwyddiannus y mae galw mawr amdano ac mae'n cynnig rhagor o ddewis i bobl a fyddai wedi gorfod ystyried lleoliad gofal preswyl yn flaenorol er mwyn diwallu eu hanghenion.

# DEWISIADAU GAFODD EU HARGYMELL

**Yn dilyn adolygiad pellach o Gartrefi Gofal Preswyl y Cyngor ar gyfer pobl hŷn, mae argymhellion pellach yn ymwneud â darparu gofal preswyl yn y dyfodol yn Nhŷ Glynrhedynog a Chae Glas yn cael eu cynnig isod.**

Y dewisiadau mae'r Cabinet wedi penderfynu ymgynghori arnyn nhw yw:

**CYNNIG 1:**

## 1 Datgomisiynu (cau) Tŷ Glynrhedynog yng Nglynrhedynog yn barhaol yn 2024/25

**Os bydd cytundeb i ddatgomisiynu (cau) Tŷ Glynrhedynog, bydd 26 o welyau gofal preswyl yn cael eu colli, gan gynnwys 16 gwely preswyl cyffredinol a 10 gwely dementia preswyl.**

Ym mis Medi, cytunodd Cabinet y Cyngor i adeiladu cartref gofal dementia preswyl â 32 ystafell wely ar safle hen ffatri Chubb yng Nglynrhedynog. Mae gwaith paratoi'r safle eisoes ar y gweill, ac mae cynlluniau'r datblygiad wedi'u cadarnhau.

Byddai preswylwyr yn cael llety yn y tymor byr yn ein cartrefi presennol neu mewn cartrefi annibynnol eraill dros dro hyd nes y bydd y cartref gofal newydd ar hen safle ffatri Chubb yng Nglynrhedynog ar gael.

Bydd holl drigolion presennol Tŷ Glynrhedynog yn cael cynnig symud yn ôl i'r cartref gofal newydd pan fydd yn agor yn amodol ar eu hanghenion wedi'u hasesu bryd hynny. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw deithio ychwanegol y bydd rhaid i deuluoedd preswylwyr presennol Tŷ Glynrhedynog ei wneud o ganlyniad i'r penderfyniad i gau'r cartref cyn i'r cartref gofal newydd ddod ar gael.

Mae gan Dŷ Glynrhedynog amgylchedd ffisegol gwael gyda chynllun lawr lletchwith ac nid yw'n darparu'r ansawdd uchel o lety y bydden ni'n ei ddymuno i breswylwyr. Mae hyn wedi cyfrannu at y niferoedd isel o breswylwyr a lefelau meddiannaeth isel. Yn ogystal, cyllideb net bresennol (arian cymorth) y Cyngor ar gyfer Tŷ Glynrhedynog yw £1.16 miliwn y flwyddyn, ac mae hyn yn ychwanegu pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor. Dyw hyn ddim yn gynaliadwy, yn enwedig ar adeg pan fo gormod o welyau gofal preswyl ledled Rhondda Cynon Taf.

**CYNNIG 2:**

## 2 Datgomisiynu (cau) Cae Glas yn y Ddraenen Wen yn barhaol yn 2024/25

**Os bydd cytundeb i ddatgomisiynu (cau) Cae Glas, bydd 39 o welyau gofal preswyl dementia yn cael eu colli.**

Byddai'r preswylwyr a fyddai'n gorfod symud yn cael llety mewn un o gartrefi presennol y Cyngor neu mewn cartrefi annibynnol eraill, yn dibynnu ar anghenion a dewis y preswylwyr a'u teuluoedd.

Er bod y capasiti dros ben yn y farchnad yn cael ei gydnabod, mae rhai risgiau'n gysylltiedig â datgomisiynu'r cartref gofal mawr yma yng Nghae Glas, gan gynnwys:

Ar hyn o bryd mae cartrefi'r sector annibynnol 95% yn llawn. Mae 3 chartref gofal sector annibynnol wedi cau yn Rhondda Cynon Taf dros y tair blynedd diwethaf ac does dim darparwyr newydd wedi symud i'r ardal ers hynny.

Mae newidiadau rheoliadol i fanyleb cartrefi gofal bellach yn creu rhwystr ar gyfer trosglwyddo cofrestriad i berchennog newydd ac mae angen cyfalaf sylweddol ar unrhyw gartrefi newydd i'r farchnad leol i gymryd lle unrhyw gartrefi pellach fyddai'n cau. Mae'r risg i'r Cyngor y bydd rhagor o gartrefi gofal dementia annibynnol yn cau yn uwch na'r risg yn deillio o gau cartrefi gofal preswyl cyffredinol oherwydd cymhlethdod gwaith diwallu anghenion pobl â dementia.

Mae modd lliniaru'r broses o ddatgomisiynu a dadgofrestru Cae Glas yn rhannol drwy ychwanegu 10 gwely i'r nifer o leoedd dementia preswyl yn y rhan o gartref gofal Parc Newydd yn Nhonysguboriau sydd newydd ei hailwampio i ddarparu llety parhaol a llety seibiant yn y tymor byr tra'n aros i ddatblygiadau llety gofal arfaethedig Glynrhedynog ac Aberpennar ddechrau. Mae cartref gofal Tegfan yn Aberdâr yn y broses o newid i fod yn gartref preswyl dementia yn unig a fydd yn cynnig 46 o welyau.

Yn ogystal, cyllideb net (arian cymorth) presennol y Cyngor ar gyfer Cae Glas yw £1.61 miliwn y flwyddyn, ac mae gorwario yn ychwanegu pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor. Dyw hyn ddim yn gynaliadwy, yn enwedig ar adeg pan fo gormod o welyau gofal preswyl ledled Rhondda Cynon Taf.

## CRYNODEB

**Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cau Tŷ Glynrhedynog a Chae Glas, byddai'r 44 o drigolion presennol yn cael eu trosglwyddo o fewn Rhondda Cynon Taf a fyddai'n lleihau nifer y lleoedd gofal preswyl gwag i 40, yn seiliedig ar y feddiannaeth gyfredol sydd wedi'i nodi.**

Mae'r Cyngor yn deall y bydd y cynigion i gau Tŷ Glynrhedynog a Chae Glas yn achosi pryder i breswylwyr, teuluoedd a staff. Rydyn ni'n effro i'r ffaith bod angen cymorth gofalus ac ymgysylltu prydlon ac mae rhannu gwybodaeth yn flaenoriaeth. Byddai holl breswylwyr Tŷ Glynrhedynog a Chae Glas (os ydyn nhw'n cau yn dilyn yr ymgynghoriad) yn cael cynnig trefniadau gofal a chymorth arbennig i'w cynorthwyo i drosglwyddo'n ddiogel i gartref gofal arall o'u dewis a fyddai'n diwallu eu hanghenion.

O ran y staff a fydd yn cael eu heffeithio gan benderfyniad i fwrw ymlaen, mae gan y Cyngor brosesau Adnoddau Dynol hirsefydlog a chytûn ar waith gyda'n cydweithwyr yn yr undebau llafur a fydd yn cael eu defnyddio. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys opsiynau ar gyfer Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol (VER), Diswyddo Gwirfoddol (VR) ac adleoli. Fydd dim diswyddo gorfodol.

Penderfynodd y Cyngor gychwyn rhaglen ymgynghori ar y cynigion i gau Tŷ Glynrhedynog a/neu Cae Glas ac o ganlyniad mae wedi cytuno i gyfyngu ar dderbyniadau i gartrefi gofal preswyl mewnol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw lleoliad arall fyddai'n gallu diwallu anghenion ar gael. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar breswylwyr cyn i'r Cabinet drafod canlyniadau'r ymgynghoriad arfaethedig ac unrhyw benderfyniad y bydd yn ei wneud ynglŷn â'r cynigion.

## BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

**Dydy'r Cyngor DDIM WEDI GWNEUD UNRHYW BENDERFYNIAD ETO ar wahân i'r penderfyniad i ddechrau ymgynghoriad.**

**Mae'r ymgynghoriad yn para 8 wythnos, felly mae digon o amser i bobl gael dweud eu dweud.**

Bydd y sawl fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol a'u cynhalwyr yn cael cynnig cefnogaeth i sicrhau eu bod nhw'n cael cyfle i wybod beth yw pwrpas y cynigion a chael cyfle i wneud sylwadau arnyn nhw.

Byddwn ni'n ystyried pob barn cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

# DWEUD EICH DWEUD!
HOLIADUR

Gwahanu •
Llenwi •
Anfon •

# Adolygiad Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

**Darllenwch y manylion yn y pecyn gwybodaeth yn llawn cyn llenwi'r holiadur.**

**Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn adolygu'r ddarpariaeth cartrefi gofal preswyl er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'n fewnol yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol gofal hirdymor y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu i bobl hŷn ac mae angen ymgynghori ar y cynigion sydd wedi'u nodi.**

C1. **P'un o'r rhain ydych chi?**

- Preswylydd:
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Tŷ Glynrhedynog
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Cae Glas
- Perthynas / Partner / Cyfaill preswylydd:
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Tŷ Glynrhedynog
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Cae Glas
  - ☐ Y ddau gartref
- Eiriolwr dros breswylydd:
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Tŷ Glynrhedynog
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Cae Glas
  - ☐ Y ddau gartref
- Aelod o staff:
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Tŷ Glynrhedynog
  - ☐ Cartref Gofal Preswyl Cae Glas
  - ☐ Y ddau gartref

☐ Aelod o'r cyhoedd

☐ Arall (Nodwch):

..........................................................................................................................

**SYLWCH:**
Os oes angen rhagor o le i ateb unrhyw gwestiynau ar yr holiadur yma, mae croeso i chi atodi unrhyw dudalennau ychwanegol yn ddiogel gyda rhif y cwestiwn y mae eich ymateb yn cyfeirio ato wedi'i nodi'n glir.

**AR GAEL MEWN IEITHOEDD NEU FFORMATAU ERAILL AR GAIS**
**Fydd gohebu yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.**
Os oes angen ein gwasanaeth eirioli ni arnoch chi, rhowch wybod i ni.

RHONDDA CYNON TAF

**CYNNIG 1:**

## 1 Datgomisiynu (cau) Tŷ Glynrhedynog yng Nglynrhedynog yn barhaol yn 2024/25

**Os bydd cytundeb i ddatgomisiynu (cau) Tŷ Glynrhedynog, bydd 26 o welyau gofal preswyl yn cael eu colli, gan gynnwys 16 gwely preswyl cyffredinol a 10 gwely dementia preswyl.**

Byddai preswylwyr yn cael llety yn y tymor byr yn ein cartrefi presennol neu mewn cartrefi annibynnol eraill yn Rhondda Cynon Taf dros dro. Byddai hyn yn dibynnu ar anghenion a dewis y preswylwyr a'u teuluoedd.

C2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig?**

☐ Anghytuno'n gryf
☐ Anghytuno i raddau
☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
☐ Cytuno i raddau
☐ Cytuno'n gryf

C3. **Nodwch unrhyw sylwadau:**

C4. **A ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth yn y llyfryn yn nodi pam mae datgomisiynu (cau) wedi cael ei argymell yn glir?**

☐ Anghytuno'n gryf
☐ Anghytuno i raddau
☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
☐ Cytuno i raddau
☐ Cytuno'n gryf

C5. **Pa wybodaeth ychwanegol ydych chi'n meddwl sy'n bwysig i'r Cyngor nodi wrth ystyried y cynnig yma?**

Q6. **Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu?**

**CYNNIG 2:**

## 2 Datgomisiynu (cau) Cae Glas yn y Ddraenen Wen yn barhaol yn 2024/25

**Os bydd cytundeb i ddatgomisiynu (cau) Cae Glas, bydd 39 o welyau gofal preswyl dementia yn cael eu colli.**

Byddai'r preswylwyr a fyddai'n gorfod symud yn cael llety mewn un o gartrefi presennol y Cyngor neu mewn cartrefi annibynnol eraill yn Rhondda Cynon Taf. Byddai hyn yn dibynnu ar anghenion a dewis y preswylwyr a'u teuluoedd.

Q7. **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig?**

- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Anghytuno i raddau
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Cytuno i raddau
- ☐ Cytuno'n gryf

C8. **Nodwch unrhyw sylwadau:**

C9. **A ydych chi'n cytuno bod yr wybodaeth yn y llyfryn yn nodi pam mae datgomisiynu (cau) wedi cael ei argymell yn glir?**

- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Anghytuno i raddau
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Cytuno i raddau
- ☐ Cytuno'n gryf

C10. **Pa wybodaeth ychwanegol ydych chi'n meddwl sy'n bwysig i'r Cyngor nodi wrth ystyried y cynnig yma?**

Q11. **Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu?**

## SYLWADAU ERAILL

C12. **Oes rhagor o sylwadau neu opsiynau eraill yr hoffech i ni eu hystyried ar gyfer cartrefi gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf?**

**Rhowch wybod i ni am eich amgylchiadau unigol. Mae croeso i chi roi rhagor o fanylion.**

## GWYBODAETH AMDANOCH CHI

C13. **Rhywedd**

C14. **Oedran**

C15. **Cod post**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw.

C16. **Sut byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:**

1. Rhyw
2. Oed
3. Ethnigrwydd
4. Anabledd
5. Rhywioldeb
6. Crefydd / Cred
7. Hunaniaeth rywedd
8. Statws perthynas
9. Beichiogrwydd
10. Iaith ddewisol

**Nodwch eich rheswm/rhesymau dros hynny:**

Yn rhan o'n proses Asesu'r Effaith ar y Gymraeg, mae'r Cyngor wedi nodi bod effeithiau posibl ar y Gymraeg. Mynnwch olwg ar yr Asesiad Effaith a rhowch unrhyw sylwadau os yn briodol.

C17. **Sut byddai'r cynnig/cynigion, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo?**

☐ Cadarnhaol
☐ Negyddol
☐ Dim effaith
☐ Ddim yn gwybod

C18. **Sut gallai effeithiau cadarnhaol gael eu hestyn, neu'r effeithiau negyddol gael eu lleihau?**

C19. **Ydy'r Cynllun Strategol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?**

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☐ Ddim yn gwybod

---

**Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi er mwyn trafod eich ymateb i'r holiadur yma? Ticiwch y blwch:**

☐ Rydw i'n fodlon i chi gysylltu â mi
☐ Dydw i ddim yn fodlon i chi gysylltu â mi

**Enw:**...............................................................................................

**E-bost / Rhif Ffôn:**...............................................................................................

# Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio eich data, bwriwch olwg ar Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Ymgynghori a thudalenau diogelu data y Cyngor ar wefan y Cyngor **www.rctcbc.gov.uk/DiogeluData**

Cliciwch ar CYFLWYNO/SUBMIT i gwblhau'r holiadur ar-lein.
Os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch ef i:

**Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH**
**CBSRhCT, Ymchwil ac Ymgynghori, 2 Llys Cadwyn PONTYPRIDD CF37 4TH**

Neu anfonwch eich barn gyffredinol aton ni drwy e-bost:
**ymgynghori@rctcbc.gov.uk**